

## Adroddiad Blynyddol 2018 Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg CFfDLC

### **1 Diben**

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif waith Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2018 – 31 Mawrth 2019. Diffinnir rôl ac aelodaeth y Pwyllgor yn y Cylch Gorchwyl (Atodiad 1). Prif rôl y Pwyllgor yw rhoi cyngor annibynnol i Swyddog Cyfrifyddu CFfDLC. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor wedi monitro'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu, gan ategu hynny â chanlyniadau'r archwiliadau mewnol ac allanol. Chwaraeodd y Pwyllgor ran allweddol mewn diffinio agweddau ar y gwaith archwilio ac yn monitro ymateb y rheolwyr i'r materion a godwyd.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut y bodlonodd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ei gyfrifoldebau yn ystod 2018-19 a chanlyniad y gwaith i wneud gwelliannau pellach i drefniadau llywodraethu a rheoli'r sefydliad. Bwriedir i'r adroddiad roi sicrwydd i lywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu, i'w gynnwys yn Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol CFfDLC ar gyfer 2018-19.

### **2 Gwaith y Pwyllgor yn ystod 2018-19**

#### Aelodaeth

- 2.1 Yn ystod 2018-19, ni fu unrhyw newid yn aelodaeth y Pwyllgor. Gwasanaethais innau fel Cadeirydd y Pwyllgor, roedd David Powell a Theodore Joloza yn Aelodau o'r Pwyllgor a Julie James yn Aelod Annibynnol. Mae Mr Powell a Mr Joloza yn Aelodau o CFfDLC ar rwyf innau'n Ddirprwy Gadeirydd CFfDLC. Mae penodiadau Mr Powell a minnau yn rhedeg am 4 blynedd hyd at 30 Medi 2019. Mae Theodore Joloza wedi'i benodi am dair blynedd hyd at 31 Awst 2021. Ailbenodwyd Julie James yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar 1 Medi 2016 am dair blynedd hyd at 31 Awst 2019. Hefyd, mynychwyd cyfarfodydd y pwyllgor gan sylwedydd o Lywodraeth Cymru: Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol.
- 2.2 Roedd yr Archwilwyr Allanol (Swyddfa Archwilio Cymru) a'r Archwilwyr Mewnol (Deloitte LLP) yn bresennol ym mhob cyfarfod hefyd i roi cefnogaeth a chyngor i'r Pwyllgor.

#### Cyfarfodydd

- 2.3 Roedd tri chyfarfod wedi'u trefnu yn ystod y flwyddyn – 25 Gorffennaf 2018, 21 Tachwedd a 25 Chwefror 2019. Roedd Theo Joloza, Julie James a minnau'n bresennol ym mhob un o'r cyfarfodydd. Nid oedd David Powell yn gallu mynychu'r cyfarfod ym mis Gorffennaf.
- 2.4 Mae cofnodion y Pwyllgor yn rhoi manylion am y cyfrifoldebau a ddyrannwyd a dyddiadau cwblhau ar gyfer camau gweithredu cytûn. Mae hyn yn galluogi

olrhain cynnydd yn fwy effeithlon o lawer ar gamau gweithredu cytûn, er mwyn sicrhau y cânt eu cwblhau fel y cynlluniwyd neu eu dwyn yn eu blaen. Caiff cofnodion y Pwyllgor eu cyhoeddi ar wefan CFfDLC.

### 3 Amgylchedd rheoli

#### Archwilio Mewnol

- 3.1 Ail-benodwyd Archwilwyr Mewnol CFfDLC, Deloitte, yn 2015 yn dilyn ymarferiad tendro cystadleuol am gontract 5 mlynedd. Gwnaethant gyflwyno eu cynllun archwilio 5 mlynedd ar gyfer 2015/16 ymlaen am y tro cyntaf yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2015. Mae cwmpas y gwaith archwilio ar gyfer y 5 mlynedd yn canolbwyntio ar Lywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg a Systemau Ariannol (gan gynnwys caffael) sydd i'w harchwilio'n flynyddol, a hefyd rhaglen archwilio dreigl yn cwmpasu'r agweddau eraill ar waith a rheolaethau CFfDLC, sef:
- Arolygon CFfDLC a'r CFfG;
  - Cynllunio Strategol;
  - Trefniadau Pensiynau;
  - Adnoddau Dynol;
  - Diogelwch Gwybodaeth; a
  - Rheolaethau Cyffredinol TG.
- 3.2 Caiff y gwaith archwilio mewnol ei gyflawni trwy drafod gydag aelodau staff priodol, darllen dogfennau a chynnal profion, yn ôl yr angen, i gadarnhau effeithiolrwydd y rheolaethau sydd ar waith. Caiff gwaith archwilio mewnol ei gyflawni gan fod yn briodol ymwybodol o risgiau twyll a llygredd yn y prosesau dan archwiliad. Pan fydd y gwaith archwilio mewnol wedi'i gwblhau, bydd y canfyddiadau ac unrhyw argymhellion a wnaed yn cael eu trafod mewn cyfarfod ymadael a drefnwyd ymlaen llaw cyn i adroddiad yr archwilwyr mewnol gael ei ddrafftio, ei gytuno gan y rheolwyr a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.
- 3.3 Yn ystod 2018-19, roedd gwasanaeth Archwilio Mewnol CFfDLC yn destun adolygiad allanol annibynnol a oedd yn edrych ar gydymffurfiaid â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS). Canfyddiadau'r adolygiad oedd bod yr Archwilwyr Mewnol yn cydymffurfio â PSIAS, er y nodwyd rhai meysydd ar gyfer gwella. Mae'r meysydd hyn ar gyfer gwella yn cael eu hystyried gan Archwilwyr Mewnol CFfDLC, a chânt eu bwydo'n ôl i CFfDLC trwy'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.
- 3.4 Yn ystod 2018-19, adolygodd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yr adroddiadau canlynol a ddarparwyd gan Deloitte:

### Adroddiad Archwiliad Canol Blwyddyn 2018-19

Maes archwilio	Dyddiad cyhoeddi	Gwendid a nodwyd			Lefel sicrwydd
		Blaenoriaeth uchel	Blaenoriaeth ganolig	Blaenoriaeth isel	
Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg	Hydref 2018	-	-	-	Sylweddol
Prynu, Caffael a Symiau Taladwy	Hydref 2018	-	-	2	Sylweddol

### Adroddiad Archwilio Blynnyddol 2018-19

Maes archwilio	Dyddiad cyhoeddi	Gwendid a nodwyd			Lefel sicrwydd
		Blaenoriaeth uchel	Blaenoriaeth ganolig	Blaenoriaeth isel	
Arolygon CFfG ac Arolygon Etholiadol	Chwefror 2019	-	4	1	Cymedrol

- 3.5 Rhoddodd yr adroddiad archwilio canol blwyddyn sicrwydd Sylweddol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a Rheoli Risg, Prynu, Caffael a Symiau Taladwy. Mae'r canfyddiadau hyn yn rhoi sicrwydd bod trefniadau CFfDLC yn lleihau'r graddau y mae'n agored i risg. Nododd y Pwyllgor drylwyredd y gwaith archwilio, ymarferoldeb argymhellion ac ymateb agored a chadarnhaol rheolwyr CFfDLC.
- 3.6 Rhoddodd yr archwiliad diwedd blwyddyn sicrwydd Cymedrol ar gyfer arolygon CFfDLC ac arolygon seneddol CFfG. Roedd yr archwiliad mewnol o arolygon CFfDLC ac arolygon seneddol CFfG yn cwmpasu'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer cynnal yr arolygon, ac nid oedd yn cwmpasu canfyddiadau nac argymhellion yr arolygon. Hwn oedd y tro cyntaf y bu prosesau arolygu CFfG yn destun archwiliad mewnol tebyg, ac ni ellir eu harchwilio eto nes i'r arolwg seneddol nesaf ddechrau yn 2024. Mae CFfDLC yn cymryd camau i godi'r sgôr sicrwydd archwilio ar gyfer y prosesau arolygu o Gymedrol i Sylweddol trwy roi argymhellion yr archwiliad ar waith cyn gynted â phosibl.
- 3.7 Mae'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn derbyn adroddiadau cynnydd ar weithredu'r argymhellion archwilio ym mhob cyfarfod. Yn ystod 2018-19, nodwyd bod nifer o argymhellion a wnaed mewn blynnyddoedd blaenorol wedi'u hail-godi, naill ai am na fu modd eu gweithredu'n llawn hyd nes i CFfDLC ymgymryd â mwy o waith arolygu, neu oherwydd ymrwymadau eraill.
- 3.8 Mae ansawdd y gwaith archwilio a gwaith y Pwyllgor wedi'i werthuso yn ystod y flwyddyn drwy ystyried yr adroddiadau archwilio ac argymhellion, a

thrafodaethau mewn cyfarfodydd rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr Mewnol. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod cyfrinachol blynyddol rhwng yr Aelodau a'r Archwilwyr Mewnol yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 25 Chwefror 2019, a chwblhaodd ymarferiad asesu effeithiolrwydd blynyddol o'r archwilwyr mewnol a rhestr wirio gwerthuso arfer da'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg. Ar sail y rhain, aseswyd bod perfformiad yr Archwilwyr Mewnol yn effeithiol.

### Archwilio Allanol

- 3.9 Archwilydd Allanol CFfDLC yw Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cafodd casgliadau'r archwiliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18 a gynhwyswyd yn Llythyr Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru eu hadolygu yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar 25 Gorffennaf 2018. Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2017-18 ac ni chodwyd unrhyw argymhellion archwilio.
- 3.10 Cyflwynodd Swyddfa Archwilio Cymru ei Gynllun Archwilio 2019 ar gyfer archwilio datganiadau ariannol 2018-19 CFfDLC i gyfarfod y Pwyllgor ar 25 Chwefror 2019. Roedd y ddogfen hon yn egluro cyfrifoldebau cymharol CFfDLC a Swyddfa Archwilio Cymru.

### Effeithiolrwydd ac Effaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

- 3.11 Cwblhaodd Aelodau'r Pwyllgor holiadur 2018-19 ym mis Rhagfyr 2018 a'i ddychwelyd i Ysgrifenyddiaeth CFfDLC i ddadansoddi'r ymatebion. Roedd yr ymatebion yn dynodi y bu cydymffurfio ag arfer da ym mhob maes.
- 3.12 Yn ystod 2018-19, dangoswyd effaith y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar CFfDLC gan y camau canlynol a chynigion ar gyfer newid a gafodd eu mabwysiadu gan CFfDLC:
- awgrymodd newidiadau ac ychwanegiadau i Gofrestri Risg CFfDLC trwy gydol y flwyddyn;
  - cynigiodd y dylai cydymffurfiaid â GDPR fod yn destun archwilio mewnol;
  - cynigiodd y dylai profi Cynllun Parhad Busnes y Comisiwn gynnwys Aelod o'r Comisiwn;
  - cynigiodd ychwanegiadau i Bolisi Cwynion CFfDLC;
  - cynigiodd y dylai CFfDLC ymateb i bapur gwyn Llywodraeth Cymru ar newidiadau i Safonau'r Gymraeg;
  - cynigiodd y dylai CFfDLC barhau i gael adroddiadau archwilio mewnol TG Llywodraeth Cymru ar gyfer sicrwydd tra mae'n rhan o system TGCh Llywodraeth Cymru;
  - cynigiodd y dylai CFfDLC adolygu ei ofynion archwilio mewnol ar gyfer TG yn y dyfodol, yn sgil y newid arfaethedig i'r trefniadau TG yn 2018-19;
  - ymgynghorodd â, a chafodd farnau cyrff archwilio allanol nad oes gan Fwrdd CFfDLC gysylltiad â nhw yn ystod busnes arferol;

- cafodd sicrwydd ar brosesau rheoli a threfniadau ar gyfer delio â thwyll, a rhoddodd ddealltwriaeth o hyn i'r archwilwyr allanol ar ran CFfDLC; ac
- adolygodd y drafft cyntaf o Ddatganiad Llywodraethu CFfDLC a diwygiadau arfaethedig, er mwyn ei symud tuag at arfer gorau.

3.13 Cafodd CFfDLC sicrwydd hefyd drwy dderbyn adroddiadau yn nodi canlyniadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, ynghyd â chopïau o gofnodion y cyfarfodydd.

#### **4 Cydweithredu rhwng Archwilio Mewnol ac Allanol**

4.1 Roedd y Pwyllgor yn fodlon fod yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn cyfathrebu ac yn gweithio gyda'i gilydd i leihau lefel unrhyw waith dyblygedig ac arwain at ymdriniaeth archwilio effeithlon ac effeithiol. Cadarnhawyd hyn trwy arsylwi a gwerthuso trwy gydol y flwyddyn ac yn y cyfarfod cyfrinachol rhwng Aelodau'r Pwyllgor a'r Archwilwyr Mewnol a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2019.

#### **5 Llywodraethu Corfforaethol**

5.1 Yn ystod 2018-19, mae'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg wedi parhau i gynnal safonau uchel mewn Llywodraethu Corfforaethol a rheolaethau mewnol. Yn ystod 2018-19 fe wnaeth y Pwyllgor:

- Adolygu a diweddarau ei Gylch Gorchwyl;
- Adolygu a diweddarau ei Gynllun Gwaith Blynyddol;
- Parhau â'r arfer o gael ei Aelodau i lenwi holiadur hunanasesu blynyddol;
- Parhau â'r arfer o gynnal cyfarfod cyfrinachol blynyddol rhwng Aelodau a'r Archwilwyr Mewnol;
- Cadarnhau effeithiolrwydd yr Archwilwyr Mewnol yn ystod y flwyddyn drwy gynnal yr ymarferiad blynyddol i asesu'r archwilwyr mewnol;
- Derbyn canfyddiadau adolygiad allanol ac annibynnol o gydymffurfiaid Archwilwyr Mewnol CFfDLC â PSIAS;
- Dechrau derbyn adroddiadau Diogelwch TGCh gan gymorth technegol CFfDLC (Cymwysterau Cymru) mewn perthynas â'r system TGCh newydd;
- Derbyn adroddiadau cynnydd ar weithredu argymhellion yr archwilwyr ym mhob cyfarfod;
- Derbyn adroddiad ar brawf Cynllun Parhad Busnes y Comisiwn ar gyfer 2018-19;
- Derbyn adroddiad ar restr colledion y Comisiwn ar gyfer 2017-18;
- Derbyn adroddiad ar ymarferiad y Comisiwn i wirio asedau sefydlog ar gyfer 2018-19;
- Cadarnhau bod CFfDLC wedi cynnal systemau boddhaol ar gyfer monitro cyllidebau, adolygu rheolaeth risg, chwythu'r chwiban a thwyll, diogelwch data TG a rhoddion a lletygarwch;
- Nododd fod CFfDLC wedi ystyried effaith bosibl Brexit yn rhan o'i broses rheoli risg;

- Roedd yn fodlon y gallai Swyddog Cyfrifyddu CFFDLC fod â sicrwydd sylweddol fod trefniadau rheoli, risg a llywodraethu CFFDLC yn 2018-19 yn darparu sail gadarn a rhesymol iddo gwblhau'r Datganiad Llywodraethu.

## 6 Rheoli Risg

- 6.1 Mae dull CFFDLC o reoli risg wedi dangos ei fod yn ddull effeithiol o nodi a lliniaru risgiau, ac mae'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd wedi'u cymeradwyo gan archwilywyr CFFDLC. Adolygwyd y Gofrestr Risg ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod 2018-19. Mae'r Pwyllgor yn parhau'n fodlon fod y gofrestr yn ddogfen fyw a'i bod yn adlewyrchu'n gywir y risgiau y mae CFFDLC yn eu hwynebu wrth iddynt ddod i'r amlwg, a'u heffaith debygol. Mae'r gofrestr risg hefyd yn nodi'r camau gweithredu gan y rheolwyr i liniaru a chael gwared ar y risgiau.
- 6.2 Yn ystod 2018-19, roedd y prif risgiau a nodwyd ac a reolwyd gan CFFDLC fel a ganlyn:

Risg a nodwyd	Camau Iliniaru
Dim trefniant wrth gefn ar gyfer colli aelodau staff allweddol i ymdrin â gwaith arolwg a gofynion llywodraethu.	Newid o staff ar secondiad i staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Cyfarwyddiadau Desg ar gyfer yr holl brosesau allweddol i'w cadw a'u diweddarau. Drafftio Cynllun Olyniaeth. Cynnig sylfaen ehangach o gyfleoedd hyfforddi i'r holl staff er mwyn annog dilyniant. Dylid gwreiddio diwylliant y Comisiwn yn y staff drwy Strategaeth Gorfforaethol, cyfarfodydd a thrafodaethau tîm a rheolwyr, a pholisïau, arferion, gweithdrefnau a chyfarwyddiadau desg. Adolygu strwythur staff CFFDLC, gan gynnwys gofynion newydd ar gyfer staff ar secondiad. Rolau staff allweddol i'w cysgodi gan staff eraill. Cynnal archwiliad sgiliau. Rhoi sylw i barhad cyllid yn y Cynllun Parhad Busnes. Darparu eglurhad o'r prif weithdrefnau cyllid i'r staff. Ystyried yr angen am secondiad neu benodiad tymor byr staff ychwanegol.
Cyllid ac adnoddau annigonol yn y dyfodol. Mae cyllidebau gwirioneddol ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yn llai na gwariant a amcangyfrifwyd oherwydd y sefyllfa economaidd genedlaethol / rhaglenni arbed arian gan Lywodraeth Cymru.	Profi amcangyfrifon blynyddol yn erbyn gwybodaeth gyfredol am raglen waith y dyfodol. Cynnal trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag effaith gofynion a chyfyngiadau cyllidebol posibl yn y dyfodol. Cysylltu â Llywodraeth Cymru ar effaith bosibl Brexit trwy gyfarfodydd Penaethiaid Adnoddau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Cyllid digonol i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru o Swyddfa'r Cabinet i gefnogi'r gyllideb ar gyfer blynyddoedd y dyfodol. Cododd y Prif Weithredwr faterion ynglŷn â newidiadau i gyllid y dyfodol gyda Swyddfa'r Cabinet, ynghyd â chyswllt blynyddol i drafod newidiadau i ofynion cyllido.
Mae'r Comisiwn yn methu cynnal enw da, perthynas waith dda a chyfathrebu â phrif gynghorau a rhanddeiliaid allweddol.	Cyfarfodydd rhwng y Comisiwn a rhanddeiliaid allweddol. Cyfarfodydd misol rhwng y Cadeirydd a Llywodraeth Cymru. Cyfarfodydd â phrif gynghorau i drafod cyn ac ystod arolygon. Ymgynghori â rhanddeiliaid ar unrhyw bolisi newydd neu newidiadau mawr i bolisïau. Mae holiaduron ôl-arolwg yn rhoi cyfle gwell i rhanddeiliaid leisio eu barn ynghylch p'un a yw'r Comisiwn wedi cyflawni ei swyddogaethau'n briodol ac yn deg.
Nid yw CFFDLC yn gallu cwblhau arolygon etholiadol erbyn 2021 yn barod ar gyfer etholiadau 2022.	Cytuno ar amserlen arolygon gyda Llywodraeth Cymru. Cytuno ar ofynion cyllideb arolygon gyda Llywodraeth Cymru. Cytuno ar bolisi ac arfer gyda Llywodraeth Cymru. Cytuno ar Bolisi Meintiau Cynghorau gyda Llywodraeth Cymru. Adolygu strwythur staff CFFDLC, gan gynnwys gofynion newydd ar gyfer staff ar secondiad. Cytuno ar ddyraniad Comisiynwyr Arweiniol pob arolwg. Cysylltu â phrif gynghorau ynghylch unrhyw arolwg cymunedol a

	all effeithio ar yr amserlen arolygon. Cynnal a monitro cofrestrï risg arolygon unigol. Cyfarfod ag Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru. Cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol.
--	---

- 6.3 Cafodd y risg yn ymwneud â cholli staff allweddol ei lliniaru trwy newid o staff ar secondiad i staff wedi'u cyflogi'n uniongyrchol, cyflwyno lwfans recriwtio a chadw ar gyfer staff allweddol, sefydlu a chynnal strwythur staff cadarn a sicrhau y caiff yr holl bolisiâu a chyfarwyddiadau desg eu cadw'n gyfredol.
- 6.4 Cafodd y risg yn ymwneud â chyllid annigonol yn y dyfodol ei lliniaru trwy gysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch senarios gofynion cyllideb posibl a hefyd amcangyfrif ar gyfer nifer o flynyddoedd yn y dyfodol. Hefyd, mae CFfDLC yn cael adnoddau digonol i gynnal ysgrifenyddiaeth yng Nghaerdydd ar gyfer y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru i gynnal arolygon ac yn ystod blynyddoedd pan nad oes arolwg yn cael ei gynnal wedi helpu i liniaru'r risg hon.
- 6.5 Cafodd y risg yn ymwneud â methu cynnal enw da a pherthynas waith dda â rhanddeiliaid allweddol ei lliniaru trwy gyfarfodydd, yn ôl yr angen, ymgynghori ar unrhyw bolisi newydd ac anfon holiadur ôl-arolwg at rhanddeiliaid ar ôl pob arolwg.
- 6.6 Caiff y risgiau na fydd CFfDLC yn gallu cwblhau arolygon etholiadol erbyn 2021 mewn pryd ar gyfer etholiadau 2022 eu lliniaru trwy gysylltiad agos â swyddogion Llywodraeth Cymru i rannu proffiliau cyllidebau amcangyfrifedig, ynghyd â pholisi ac arfer cytûn, drafftio a chytuno ar amserlen ar gyfer y gwaith arolygon, cysylltu â rhanddeiliaid allweddol, cynnal cofrestrï risg unigol ar gyfer yr arolwg o bob awdurdod a sicrhau bod y staff angenrheidiol yn eu lle ac wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ymgymryd â'r gwaith arolygon.

#### Ystyried y Ffynonellau Sicrwydd

- 6.7 Caiff CFfDLC sicrwydd o ffynonellau amrywiol, fel adroddiadau cyfarfodydd ac ati. Mae manylion am y prif feysydd sicrwydd a'u ffynonellau yn cael eu rhoi yn Atodiad 2.

## **7 Cyllideb 2018-19 a Datganiadau Ariannol 2017-18**

- 7.1 Aeth y Pwyllgor ati i adolygu proses fonitro cyllideb CFfDLC ar gyfer cyllideb 2018-19 ym mhob cyfarfod yn ystod y flwyddyn, ac roedd o'r farn ei bod yn briodol ac yn gadarn. Adolygodd y Pwyllgor y datganiadau ariannol drafft ar gyfer 2017-18 ym mis Mehefin 2018 cyn cynnal yr archwiliad. Ystyriodd adroddiad yr Archwilydd ac unrhyw faterion a oedd yn weddill. Yna, cymerwyd camau i sicrhau bod CFfDLC yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a oedd yn weddill er mwyn galluogi cyhoeddi barn ddiamed ar 30 Gorffennaf 2018.

## **8 Casgliad**

- 8.1 Ar sail y dystiolaeth a oedd ar gael, mae'r Pwyllgor wedi gweithredu i safon uchel yn ystod y flwyddyn ac wedi cael effaith gadarnhaol ar CFfDLC, gan wella arfer da. Mae'r Pwyllgor wedi cael sicrwydd priodol, dibynadwy a chynhwysfawr ar amgylchedd rheoli mewnlol CFfDLC, ei adroddiadau ariannol a'i allu i reoli risgiau. Mae'r Pwyllgor yn fodlon y gall Swyddog Cyfrifyddu CFfDLC fod yn sicr i raddau helaeth fod trefniadau rheoli, risg a llywodraethu CFfDLC yn 2018-19 wedi darparu sail gadarn a rhesymol iddo gwblhau'r Datganiad Llywodraethu.

## **9 Cydnabyddiaethau**

- 9.1 Rwyf yn ddiolchgar i David Powell, Theo Joloza a Julie James fel aelodau ac aelod annibynnol o'r Pwyllgor, yn y drefn honno, am eu gwaith, eu cyfraniad, eu cymorth a'u cefnogaeth. Mae gwaith rheolwyr CFfDLC, gyda chefnogaeth staff eraill, wedi bod yn ganolog i'n gwaith, a gwerthfawrogir eu cyfraniadau. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i Lisa James o Lywodraeth Cymru ac i Derwyn Owen, Mark Jones ac Anthony Ford o Swyddfa Archwilio Cymru ac Ian Howse a Lauren Parsons o Deloitte. Bu eu cymorth a'u cyngor yn fuddiol ac yn adeiladol iawn yn ystod y flwyddyn.

Ceri Stradling  
Cadeirydd Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg CFfDLC  
Ebrill 2019



## COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

### PWYLLGOR ARCHWILIO AC ATAL RISG

#### CYLCH GORCHWYL

##### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn) wedi sefydlu'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau'n ymwneud â materion risg, priodoldeb ariannol, rheolaeth a llywodraethu mewnol a sicrwydd cysylltiedig. Y Prif Weithredwr, fel y Swyddog Cyfrifyddu, sy'n gyfrifol dan delerau Dogfen Fframwaith y Comisiwn a'r Llythyr Cylch Gwaith blynyddol, a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, am ddarparu rheolaethau mewnol digonol, a bydd yn ystyried cyngor y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, fel y bo'n briodol.
- 1.2 Mae'r Comisiwn hefyd yn darparu ysgrifenyddiaeth i Gomisiwn Ffiniau seneddol i Gymru (CFFG) o dan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Comisiwn, Llywodraeth Cymru, Swyddfa'r Cabinet a CFFG. O dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, bydd y Comisiwn yn darparu un sicrwydd archwilio ar gyfer y ddau gorff.
- 1.3 Penodwyd Prif Weithredwr y Comisiwn fel y Swyddog Cyfrifyddu gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru, yn effeithiol o 7 Ionawr 2019.

##### 2. Aelodaeth

- 2.1 Caiff y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ei gadeirio fel arfer gan Aelod o'r Comisiwn (cyhyd ag y bo ganddo/ganddi brofiad perthnasol), ond bydd yr arfer hwn yn destun adolygiad. Ni ddylai Cadeirydd y Comisiwn fod yn Gadeirydd nac yn Aelod o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.
- 2.2 Aelodau eraill y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yw:
  - Aelod Allanol Annibynnol penodedig; a
  - 2 Aelod o'r Comisiwn (ac eithrio'r Cadeirydd).
- 2.3 Bydd aelodaeth y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn cael ei hadolygu o dro i dro.

##### 3. Adrodd

- 3.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn adrodd yn ffurfiol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ar ôl bob cyfarfod.
- 3.2 Bydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn darparu Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, wedi'i amseru i ategu cwblhau'r cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu, gan grynhoi ei gasgliadau o'r gwaith y mae wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn.

- 3.3 Bydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn darparu Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg i Swyddfa'r Cabinet a CFFG.

#### **4. Cyfarfodydd**

- 4.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn. Gall Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg alw cyfarfodydd ychwanegol, fel y gwêl yn angenrheidiol.
- 4.2 Mae amseru'r cyfarfodydd a'r meysydd gwaith i ymdrin â hwy wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Gwaith Blynyddol y Pwyllgor. Dylai'r Cynllun Gwaith Blynyddol gael ei ddrafftio erbyn 1 Ebrill a'i adolygu gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg cyn ei gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor i roi sylwadau arno.
- 4.3 Bydd lleiafswm o 3 aelod o'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn Gadeirydd neu'n Ddirprwy Gadeirydd, yn bresennol yn y cyfarfod i ystyried bod ganddo gworwm.
- 4.4 Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn cael eu mynychu fel arfer gan y Swyddog Cyfrifyddu, y Dirprwy Prif Weithredwr, y Rheolwr Cyllid, y Rheolwr Cymorth Busnes a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol, ac Is-adran Noddi Llywodraeth Cymru y Comisiwn.
- 4.5 Gall y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ofyn i unrhyw swyddog neu Aelod arall o'r Comisiwn fod yn bresennol i gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.
- 4.6 Gall y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rhai sy'n mynychu fel arfer, ond nad ydynt yn aelodau, i dynnu'n ôl er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll am faterion penodol.
- 4.7 Gall y Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg gynnal cyfarfodydd pellach i drafod materion penodol y maent eisiau cyngor y Pwyllgor arnynt.
- 4.8 Bydd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor yn cynnal cyfarfod cyfrinachol gyda chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol bob blwyddyn i gael eu hadborth ar effeithiolrwydd y Pwyllgor ac unrhyw fater eraill yn ymwneud â threfniadau llywodraethu'r Comisiwn. Ni fydd y trefniant hwn yn atal unrhyw gyfarfod ychwanegol rhwng Aelodau'r Pwyllgor a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

#### **5. Awdurdod a Hawliau**

- 5.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg wedi'i awdurdodi gan y Comisiwn i ymchwilio i unrhyw weithgarwch o fewn ei gylch gorchwyl. Mae wedi'i awdurdodi i ofyn am unrhyw wybodaeth y mae ei hangen arno gan weithiwr neu Aelod o'r Comisiwn, a chyfarwyddir pob gweithiwr ac Aelod i gydweithredu ag unrhyw gais gan y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg. Bydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn sicrhau bod polisiau llywodraethu corfforaethol digonol ar waith gan y Comisiwn drwy adolygu Llywodraethu Corfforaethol ym mhob cyfarfod.

- 5.2 Gall y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod nad yw'n hwy na blwyddyn i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol.
- 5.3 Gall y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg gaffael cyngor ad-hoc arbenigol ar draul y Comisiwn, yn amodol ar gyllidebau a gytunwyd gan y Comisiwn.

## **6. Mynediad**

- 6.1 Bydd mynediad rhydd a chyfrinachol rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.
- 6.2 Bydd mynediad rhydd a chyfrinachol rhwng Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ac Aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.

## **7. Cyfrifoldebau**

- 7.1 Bydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn cyngori'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ar:
- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu;
  - polisiau cyfrifyddu, cyfrifon ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses ar gyfer adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, lefelau gwallau a nodwyd, a llythyr cynrychiolaeth y rheolwyr i'r archwilwyr allanol;
  - y gweithgarwch sydd wedi'i gynllunio a chanlyniadau'r archwiliad mewnol a'r archwiliad allanol;
  - digonolrwydd ymateb y rheolwyr i faterion a amlygwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys adroddiad ISA 260 a llythyr rheoli'r archwilwyr allanol;
  - sicrwydd yn ymwneud â'r gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y sefydliad;
  - cadernid trefniadau monitro'r gyllideb;
  - cynigion ar gyfer tendro naill am ai wasanaethau Archwilio Mewnol neu Allanol neu am brynu gwasanaethau heb fod yn ymwneud ag archwilio gan contractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
  - polisiau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
  - cynigion ar gyfer materion cyfrifyddu dadleuol, fel eithriadau ac esemptiadau cydymffurfio.

## **8. Gofynion gwybodaeth**

- 8.1 Er mwyn ymgymryd â'i gyfrifoldebau, a amlinellir ym mharagraff 7 uchod, mae'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn derbyn y wybodaeth ganlynol, fel y bo'n briodol:
- Adroddiad unrhyw adolygiadau o Gofrestr Risg a Pholisi Rheoli Risg y Comisiwn;
  - Y Cynllun Archwilio Mewnol;
  - Cynllun Archwilio Blynyddol yr Archwilwyr Allanol;
  - Adroddiadau cynnydd gan gynrychiolydd yr Archwilwyr Mewnol yn crynhoi'r gwaith a gyflawnwyd, materion allweddol sy'n dod i'r amlwg, ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio ac unrhyw fater yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar gyflawni amcanion archwilio mewnol;

- Barn ac Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol;
- Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio;
- Datganiadau Ariannol drafft a chyfrifon statudol y Comisiwn cyn iddynt gael eu harchwilio gan yr Archwilwyr Allanol;
- Datganiadau Ariannol a chyfrifon statudol drafft y Comisiwn cyn iddynt gael eu llofnodi gan y Swyddog Cyfrifyddu;
- Y Datganiad Llywodraethu drafft;
- Llythyr Rheoli'r Archwilwyr Allanol neu unrhyw allbwn archwilio allanol arall;
- Newidiadau i bolisiâu cyfrifyddu;
- Newidiadau i'r Cynllun Gweithredol;
- Adroddiad ar ystyriaethau'r gyllideb;
- Adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio.

## **9. Cofnodion**

- 9.1 Bydd Cofnodion ei gyfarfodydd yn cael eu cylchredeg i holl Aelodau'r Comisiwn a chynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

## **10. Adolygu'r Cylch Gorchwyl**

- 10.1 Bydd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac i adlewyrchu unrhyw newidiadau i statws y Comisiwn.

## **11. Dyddiad y ddogfen: Chwefror 2019**

## Atodiad 2

Meysydd Allweddol sy'n mynnu Sicrwydd	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd	Ffynonellau Sicrwydd		
		Lefel 1 <sup>af</sup>	2 <sup>il</sup> lefel	3 <sup>edd</sup> lefel
Llywodraethu, Gwneud Penderfyniadau ac atebolrwydd	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	<p>Gofynion y Swyddog Cyfrifyddu.</p> <p>Strwythur trefniadol.</p> <p>Cynllun dirprwyo.</p> <p>Polisiâu a Gweithdrefnau.</p>	<p>Adroddiadau i gyfarfodydd y Comisiwn am benderfyniadau a wnaed neu benderfyniadau i'w cymeradwyo.</p> <p>Amserlen ar gyfer adolygiadau polisi gan y Comisiwn.</p> <p>Strwythurau i'w hadolygu'n gyson gan y Prif Swyddog Gweithredol a'r Comisiwn.</p> <p>Datganiad Llywodraethu Blynyddol.</p>	<p>Adroddiadau'r Archwilywyr Mewnol ar Lywodraethu Corfforaethol – gwahanu dyletswyddau a chydymffurfio â rheolaethau.</p> <p>Y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn adolygu polisiâu uniondeb o dro i dro.</p> <p>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ac adolygu'r Datganiad Llywodraethu.</p>
Rheoli Risg	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Polisi Risg a Threfniadau Rheoli.	<p>Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar waith ac yn cael ei adolygu gan y Comisiwn fel rhan o'r Gofrestr Risg.</p> <p>Mae'r Comisiwn yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn fisol.</p> <p>Mae'r Gofrestr Risgiau Gweithredol yn cael ei hadolygu gan y Tîm Rheoli, a gosodir pwynt sbardun ar gyfer uwchgyfeirio risgiau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.</p> <p>Mae'r Gofrestr Risgiau Pensiynau yn cael ei hadolygu gan y Tîm Rheoli.</p>	<p>Y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn adolygu'r Cofrestr Gweithredol a Chorfforaethol ym mhob cyfarfod.</p> <p>Adroddiad Blynyddol gan yr Archwilywyr Mewnol ar Reoli Risg.</p>
Cynllunio Strategol	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 1	Llythyr Cylch Gwaith LIC ac adroddiadau'r Cynllun Gweithredol i gyfarfodydd y Comisiwn.	<p>Adroddiad y Cynllun Strategol i gyfarfodydd y Comisiwn.</p> <p>Y Comisiwn yn cytuno ar weledigaeth ac amcanion lefel uchel ar gyfer y sefydliad.</p>	Adroddiadau'r Archwilywyr Mewnol ar Gynllunio Strategol.
Didwylledd a Thyloywder	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Gwefan gynhwysfawr yn bodloni disgwyliadau o ran didwylledd a thyloywder.	Datganiad Polisi Tâl	Datganiad Llywodraethu
Gwerthoedd a Diwylliant	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Y Tîm Rheoli yn pennu gwerthoedd a diwylliant ar gyfer staff, wedi'u tanategu gan hyfforddiant a phroses Adolygu Perfformiad a	Ymagwedd y Comisiwn at ddiwyllledd, gonestrwydd ac atebolrwydd yn cyd-fynd ag ymagwedd y Tîm	Adroddiadau i'r Comisiwn ar ganlyniadau Arolygon Staff.

		Datblygiad.	Rheoli. Datganiad Llywodraethu.	Adroddiadau Buddsoddwyr Mewn Pobl.  Y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.
Arweinyddiaeth	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Gofynion y Swyddog Cyfrifyddu.	Y Comisiwn wedi pennu disgwyliadau pendant ar gyfer y sefydliad mewn Strategaethau a Chynlluniau.	Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ar Lywodraethu Corfforaethol.
Diogelwch Gwybodaeth a Data	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Gweithdrefnau Diogelwch Gwybodaeth a Data ar waith.  Adroddiadau ar Ddiogelwch TGCh gan Cymwysterau Cymru ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.	Adolygiad o gydymffurfio gan y Comisiwn. Cofnod o gwblhau hyfforddiant staff gorfodol yn y Gofrestr Hyfforddiant Staff.	Adolygiadau cyfnodol o'r Archwilwyr Mewnol.
Cynllunio'r Gweithlu	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 1	Adroddiadau wedi'u llunio gan y Prif Swyddog Gweithredol/ Dirprwy Brif Weithredwr yn nodi anghenion staff.  Polisi Tâl.	Adroddiadau i Is-Bwyllgor y Gweithlu i'w cymeradwyo.	Cymeradwyaeth y Comisiwn ar newidiadau i'r strwythur staff.
Datblygu ein staff a'n haelodau	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 1	Ymsefydlu a Hyfforddiant Cynhwysfawr.  Adolygiadau rheolaidd o Berfformiad a Datblygiad.	Adroddiad i gyfarfod y Comisiwn ar ganlyniad adolygiadau Buddsoddwyr Mewn Pobl.	Adroddiadau adolygu Buddsoddwyr Mewn Pobl.
Iechyd, Diogelwch a Lles Staff	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Polisi Absenoldeb Salwch.  Polisi Iechyd a Diogelwch.  Polisi Urddas yn y Gwaith.  Polisi Chwythu'r Chwiban.  Gwobr iechyd y gweithle bach gan Lywodraeth Cymru pan y'i cyflawnir.	Adroddiadau i Is-Bwyllgor y Gweithlu.	Adolygiad o gydymffurfio gan y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, yn ôl yr angen.
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Polisi Cyfle Cyfartal.	Adolygiad o gydymffurfio gan y Comisiwn.	Adolygiad o gydymffurfio gan y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg, yn ôl yr angen.
Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Y Cynllun Iaith Gymraeg.  Safonau'r Gymraeg.  Mynd ati i gaffael medrau ac adnoddau Cymraeg.	Adolygu a monitro Safonau'r Gymraeg gan y Comisiwn.	Gwiriadau cydymffurfio gan Gomisiynydd y Gymraeg.
Darparu Gwasanaethau – Gwerth am Arian Adolygiadau o Wasanaethau	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 1	Eglurder rolau ar gyfer adolygiadau o wasanaethau.  Amserlenni ar gyfer cyflawni adolygiadau.  Trefniadau rheoli ansawdd ar waith.	Comisiynwyr Arweiniol yn cynorthwyo'r tîm arolygon ac yn ychwanegu haenen ychwanegol o Reoli Ansawdd.  Cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i'r cyllidebau.	Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol ar gydymffurfio â'r trefniadau rheoli ansawdd.  Ymgynghoriad Statudol.

		Cyfarwyddiadau Desg. Polisi ac Arfer.		
Darparu Gwasanaethau – ansawdd archwilio	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Proses dendro a gwerthuso cynigwyr yn erbyn meini prawf penodol.	Asesiad parhaus o'r rhaglen waith ac allbynnau'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.	Asesiad blynyddol o'r Archwilwyr Mewnol gan y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg.
Systemau cyllidebau wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 1	Cyllid y Llythyr Cylch Gwaith ynghyd â Chyllid Swyddfa'r Cabinet am y flwyddyn.  Adroddiad pennu'r gyllideb i gyfarfod y Comisiwn.	Amcangyfrifon a phroffiliau Cyllidebau'r Dyfodol yn cael eu hadrodd i'r Comisiwn.	Y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn Adolygu'r System Gyllidebau ar gyfer digonolrwydd.  Archwilwyr Mewnol yn adolygu Rheolaeth Cyllidebau yn flynyddol.
Atebolrwydd cyllideb/ dirprwyo'r gyllideb	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Cynllun Dirprwyo / awdurdodi.	Adolygiad o'r gyllideb gan y Comisiwn.	Adroddiadau Archwilwyr Mewnol.
Risgiau cyllidebol	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 1	Adolygiad gan y Tîm Rheoli o risgiau cyllideb yn barhaus.	Risgiau ariannol wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol at sylw'r Comisiwn.	Y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn goruchwyllo adolygiadau'r Comisiwn o risgiau ariannol.
Gwybodaeth ariannol a rheolaethau systemau	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Cynlluniau dirprwyo, rheolaethau ariannol mewnol a gwahanu dyletswyddau.	Adroddiadau monitro cyllideb misol i'r Comisiwn.	Archwilwyr Mewnol yn adrodd ar lywodraethu a rheolaeth fewnol.
Monitro ac adrodd ar y gyllideb	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Adroddiadau cyllideb i'r Tîm Rheoli.	Adroddiadau monitro cyllideb misol i'r Comisiwn.	Y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn adolygu adroddiadau cyllideb.  Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol.
Ymchwiliadau i amrywiannau/ gweithredoedd	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Esboniadau ar gyfer amrywiant wedi'u cynnwys mewn adroddiadau cyllideb i gyfarfodydd y Comisiwn.	Cymeradwyo'r gyllideb cyn ac ar ôl gwneud newidiadau.	Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar adolygiadau'r Comisiwn o adroddiadau cyllideb.
Rheoli diwygiadau i'r gyllideb	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Y Tîm Rheoli yn cytuno ar ddiwygiadau i'r gyllideb.	Adroddiadau cyllideb i gyfarfodydd y Comisiwn i gymeradwyo hawliau trosglwyddo arian ac ad-daliadau i Adrannau.	Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar adolygiadau'r Comisiwn o adroddiadau cyllideb.
Cyfrifon Ariannol	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Manyleb cyswllt ac amserlen ar gyfer paratoi Cyfrifon Blynyddol.  Rheolwr Cyllid yn monitro amseroldeb ac ansawdd.	Anfon cyfrifon drafft at y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg i'w hadolygu cyn archwiliad.	Adroddiad ISA 260 yr Archwilwyr Allanol a'r Llythyr Rheoli.  Barn a Thystysgrif Archwilio Flynyddol.
Amlygu risgiau twyll	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Adolygiadau gan reolwyr o'r Gofrestr Risgiau Gweithredol.  Polisi chwythu'r chwiban ar waith.	Adolygiadau gan y Comisiwn o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.	Adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol a chymau gweithredu cytûn.
Strategaeth gwrth-dwyll	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Polisiâu gwrth-dwyll penodol a mabwysiadu gweithdrefnau newydd e.e. gwirio newidiadau i fanylion cyswllt/manylion banc cyflenwyr.	Adolygiadau gan y Comisiwn o'r Polisi Twyll.	Adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar unrhyw achosion o dwyll.  Archwilwyr Mewnol yn codi ymwybyddiaeth o feysydd risg newydd.
Chwythu'r chwiban	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Polisi Chwythu'r Chwiban ac ymwybyddiaeth staff.	Adolygiadau gan y Comisiwn o'r Polisi Chwythu'r Chwiban.	Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg

				ar achosion o Chwythu'r Chwiban.
Cwynion	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Polisi Cwynion.	Adolygiadau gan y Comisiwn o'r Polisi Cwynion.	Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar gwynion a dderbyniwyd.
Parhad Busnes	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 1	Cynlluniau Parhad ar waith a phroffion yn cael eu cynnal o bryd i'w gilydd.  Gweithdrefnau cadw a dinistrio dogfennau ar waith.	Adroddiadau diweddarau yn cael eu paratoi i'r Comisiwn.  Gweithdrefnau'n cael eu hadolygu o dro i dro a'u cymeradwyo gan y Comisiwn.	Adroddiadau Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar brawf y Cynllun Parhad Busnes.  Y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg yn cael adroddiadau chwarterol a gwybodaeth am dramgwyddau data.
Rheoli Asedau Sefydlog	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Cynnal ymarfer gwirio asedau.	Rhoi gwybod i'r Comisiwn am ganlyniad adolygiadau.	Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar yr ymarfer gwirio asedau.
Colledion	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Nodi a chofnodi gweithdrefnau Colledion.	Cofrestr Colledion.	Adroddiadau Blynyddol i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar golledion am y flwyddyn.
Rhoddion a Lletygarwch	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Polisi Rhoddion a Lletygarwch.	Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch.	Adroddiadau i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio ac Atal Risg ar Roddion a Lletygarwch.
Caffael	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Trefniadau caffael ar waith gan gynnwys gweithdrefnau tendro ffurfiol.  Diwydrwydd dyladwy wrth ddelio gyda chwmnïau nad ydynt o bosibl yn foesebol.	Adroddiadau i gyfarfodydd y Comisiwn ar ymarferion tendro.	Adroddiadau gan yr Archwilwyr Mewnol ar drefniadau caffael.
Materion Amgylcheddol	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Gweithdrefnau cynaliadwyedd wedi'u sefydlu, ac ymwybyddiaeth staff.	Y Comisiwn yn ystyried canlyniad Archwiliad y Ddraig Werdd.	Adroddiad Archwiliad y Ddraig Werdd.
Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 1	Sicrhau bod Gwaith Arolwg yn cael ei gyflawni'n effeithiol a bod ardaloedd prif awdurdodau yn addas i'r diben.			
Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd Amcan 2	Datblygu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y busnes, mabwysiadu egwyddorion Llywodraeth Cymru, lle bo hynny'n bosibl, a chynnal lefel uchel o Lywodraethu Corfforaethol.			